Rhagfyr 2024

# Adolygiad 2024/24 o'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Chwarae

## Taflen wybodaeth #2

**Fel Cadeirydd Consortiwm Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol Gwaith Chwarae'r DU, mae'n bleser gennyf ddarparu'r diweddariad hwn ar yr adolygiad o'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) ar gyfer gwaith chwarae.**

**Mae'r sefydliadau cenedlaethol wedi bod yn cyfarfod ers tro gan gyfuno eu hadnoddau i sicrhau y gellir cyflawni'r adolygiad hwn, ar ran y sector, a sicrhau bod y safonau yn addas at y diben ac yn adlewyrchu gwaith gwerthfawr y sector.**

**Mae'r daflen wybodaeth hon yn rhoi diweddariad ar y cynnydd a wnaed yn ystod haf 2024 er mwyn sicrhau bod y sector gwaith chwarae yn cael y wybodaeth ddiweddaraf, a sicrhau yr ymgynghorir â'r sector a'i fod yn rhan o'r broses gyfan.**

**Jane Hawkshaw**

## Beth sydd wedi digwydd dros yr haf?

Cynhaliodd Consortiwm NOS Gwaith Chwarae'r DU ymgyrch recriwtio i ddod o hyd i unigolion a chanddynt arbenigedd mewn gwaith chwarae ac arbenigedd yn y sector i fod yn rhan o'r adolygiad. Sefydlwyd dau grŵp:

1. Grŵp Ysgrifennu NOS Gwaith Chwarae
2. Grŵp Cynghori ar yr NOS Gwaith Chwarae.

Bydd y grwpiau hyn yn cyfarfod drwy gydol y broses i ddatblygu'r gwaith o adolygu a datblygu'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer gwaith chwarae yn ystod 2024/2025.

## Beth fydd yn digwydd nesaf?

Y cam nesaf fydd datblygu map swyddogaethol. Bydd y map hwn yn rhoi trosolwg o'r NOS arfaethedig er mwyn i randdeiliaid allu deall cwmpas eang y gyfres o NOS fydd yn cael ei datblygu ar gyfer gwaith chwarae. Bydd yn cael ei ddefnyddio i greu manylion y NOS ac yna ymgynghorir arnynt gyda'r sector gwaith chwarae a rhanddeiliaid allweddol eraill tua diwedd 2025.

## Beth fydd y Grŵp Ysgrifennu NOS Gwaith Chwarae yn ei wneud?

Mae'r Grŵp Ysgrifennu NOS yn cynnwys arbenigwyr ymrwymedig o'r sector a fydd yn datblygu'r gwaith o ysgrifennu'r NOS newydd ar gyfer gwaith chwarae yn ystod 2024/25. Bydd y Grŵp Ysgrifennu NOS yn cyflwyno adroddiad i Gonsortiwm NOS Gwaith Chwarae'r DU ar ei brif swyddogaethau, sef:

1. Adolygu'r NOS gwaith chwarae presennol
2. Datblygu map swyddogaethol ar gyfer NOS gwaith chwarae yn ystod 2024/25
3. Datblygu cyfres o NOS ar gyfer gwaith chwarae yn ystod 2024/25
4. Ymgynghori â'r Grŵp Cynghori ar yr NOS Gwaith Chwarae, y sector gwaith chwarae a rhanddeiliaid eraill o fewn y sector ar y map swyddogaethol drafft a'r NOS sy'n deillio ohono
5. Sicrhau bod y NOS gwaith chwarae newydd yn bodloni'r gofynion a bennwyd gan Banel Safonau a Fframwaith y DU, Consortiwm NOS Gwaith Chwarae'r DU ac Adolygiad Cwmpasu NOS Gwaith Chwarae (2023).

Mae aelodau o'r Grŵp Ysgrifennu NOS yn cynnwys cynrychiolwyr o'r pedair gwlad. Cafodd aelodau'r grŵp hwn eu recriwtio am eu gwybodaeth a'u harbenigedd

mewn gwaith chwarae, hyfforddiant, cymwysterau a datblygu safonau. Bydd y grŵp hwn yn cyfarfod yn rheolaidd i gwblhau'r gwaith ysgrifennu a'r adolygiad o'r NOS.

Aelodau'r grŵp ysgrifennu ym mis Tachwedd 2024 yw:

| Enw | Lleoliad |
|---|---|
| Caroline Kerr | Gogledd Iwerddon |
| Martin King-Sheard | Cymru |
| Dianne Larrington | Lloegr |
| Kay Maxwell | Yr Alban |
| Karen Sharp (Cadeirydd) | Yr Alban |
| Sarah Turton | Cymru |
| Meynell Walter | Lloegr |
| Mike Wragg | Lloegr |

## Beth fydd y Grŵp Cynghori ar yr NOS Gwaith Chwarae yn ei wneud?

Diben y Grŵp Cynghori ar yr NOS Gwaith Chwarae fydd bod yn gyfaill beirniadol i'r Grŵp Ysgrifennu NOS a Chonsortiwm NOS Gwaith Chwarae'r DU. Cyfeirir at y ddau grŵp fel 'Grwpiau Cyfeirio Arbenigol' yn **nhaflen wybodaeth #1** ac yn ystod y broses recriwtio. Dewiswyd y term 'Grŵp Cynghori' i roi mwy o ystyriaeth i'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i fod yn rhan o'r grŵp hwn.

Rydym yn parhau i recriwtio aelodau gwirfoddol i'r Grŵp Cynghori ar yr NOS Gwaith Chwarae sy'n meddu ar wybodaeth benodol am Addysg Uwch, cymwysterau a Chyrff Dyfarnu, darparu Addysg Bellach, gwaith chwarae mynediad agored a gofal y tu allan i oriau ysgol. Gellir rhannu'r Grŵp Cynghori ar yr NOS Gwaith Chwarae yn grwpiau arbenigedd llai o fewn y sector os bydd angen.

Bydd y grŵp hwn (neu gyfres o grwpiau) yn cyfarfod ar bwyntiau allweddol yn y broses ddatblygu i adolygu gwaith y map swyddogaethol a'r NOS sy'n deillio ohono. Mae hyn yn rhan o'r broses ymgynghori ac ymgysylltu.



Os oes gennych ddiddordeb mewn ymuno â'r Grŵp Cynghori ar yr NOS Gwaith Chwarae, anfonwch eich CV ynghyd â llythyr i gefnogi eich cais at: **adolygiadnos@chwarae.cymru**

## Ym mha ffyrdd eraill y byddwch chi'n ymgynghori ar y NOS?

Yn ogystal ag ymgysylltu drwy Gonsortiwm NOS Gwaith Chwarae'r DU, bydd cyfle i Gyngor Addysg a Hyfforddiant Gwaith Chwarae (PETC) pob gwlad wneud sylwadau ar y map swyddogaethol a'r NOS drafft.

Cynhelir ymgynghoriad ar y NOS terfynol fel rhan o ymgynghoriad cyhoeddus ehangach yn ystod Haf 2025. Bydd hyn yn cynnwys digwyddiadau rhanbarthol ar draws y DU. Cynhelir digwyddiadau ymgynghori ar-lein ond gall rhai ohonynt fod wyneb-yn-wyneb.

I gael rhagor o wybodaeth am ddiben NOS, y broses gymeradwyo a Chonsortiwm NOS Gwaith Chwarae'r DU darllenwch **daflen wybodaeth #1** neu e-bostiwch: **adolygiadnos@chwarae.cymru**

PlayBoard Northern Ireland · Play England · Play Scotland · Chwarae Cymru Play Wales · The Playwork Foundation